Sonocent Audio Notetaker

Mae Sonocent Audio Notetaker yn **drefnydd bwrdd gwaith ar gyfer eich nodiadau.** Gellwch ei ddefnyddio yn y dosbarth a'r tu allan i hel eich recordiadau sain, eich sleidiau PowerPoint a'ch nodiadau eich hun at ei gilydd.

Rhai awgrymiadau ynghylch defnyddio Audio Notetaker:

1. Gallwch ddefnyddio Audio Notetaker **naill ai** gyda'ch gliniadur (ynghyd â microffon allanol o ansawdd da): yr app cysylltiedig sydd am ddim, Sonocent Recorder, ar gyfer eich ffon clyfar; DVR neu eich Livescribe Pen.

2. Os ydych yn recordio trwy eich gliniadur, neu drwy'r app cysylltiedig, gallwch **ychwanegu nodiadau** i'ch recordiad ar yr un pryd. Ond mae cyfrifiaduron a ffonau'n gallu tarfu ar ddarlithoedd yn ofnadwy.



Byddwch yn onest gyda chi eich hun, os ydych chi'n debygol o gael eich **temtio i edrych ar y**

cyfryngau cymdeithasol, e-byst neu negeseuon testun tra byddwch yn recordio, gallai fod yn well mewnforio eich recordiadau a gwneud nodiadau ar ol y ddarlith.

3. Mae Audio Notetaker yn caniatáu i chi **gyfuno** gwahanol fformatau gwybodaeth, testun, sain, delweddau a sleidiau.

4. Gallwch ddefnyddio Audio Notetaker i **werthuso adroddiadau ymchwil neu ddogfennau testun**. Recordiwch eich hun neu defnyddiwch dyfais ddarllen neu feddalwedd darllen sgrîn i ddarllen papur, yna mewnforiwch y sain a'r ddogfen i Audio Notetaker a dechreuwch ychwanegu nodiadau at y wybodaeth.

5. Gallwch fewnforio'ch ffeil sain Livescribe fel ffeil .m4a a defnyddio'r **Audio Clean-Up** i wella ansawdd y sain.

6. Gellwch hefyd **fewnforio** eich recordiadau DVR a gwella ansawdd y recordio trwy'r Audio Clean-Up.